

OWAIN GLYNDŴR AC ABAD GLYN Y GROES

Does dim enw sy'n consurio delweddau o wrthryfel Cymreig yn well nag Owain Glyndŵr. "I am not in the roll of common men," meddai Owain yn Henry IV, Rhan I Shakespeare . Yn llawer mwy na chwyldroadwr, ganwyd Owain i deulu bonheddig Cymreig ym 1354, un oedd yn olrhain eu llinach o frenhinoedd Powys a Deheubarth yn ne-orllewin Cymru . Etifeddodd Owain y teitl Barwn Glyndyfrdwy, a maenor Glyndyfrdwy trwy ei dad. Yma ar 16 Medi 1400, cyhoeddodd ei hun yn Dywysog Cymru, gan ddechrau gwrthryfel hir – pedair blynedd ar ddeg yn erbyn brenhiniaeth Lloegr.

Fel y Brenin Arthur, mae yna draddodiad bod Owain Glyndŵr dal yn fyw, yn cysgu ac yn aros am amser pan fydd ei angen eto i arwain Cymru i ryddid. Mae 'na Stori a gofnodwyd gan y croniclydd Elis Gruffydd, sy'n sôn am Abad Abaty Glyn y Groes yn cyfarfod Owain yn gynnar un bore wrth gerdded ei ben ei hun ar y bryniau ger Llangollen.

"Rydych wedi codi yn gynnar, Meistr Abad," meddai'r Tywysog, ac atebodd yr Abad,

"Na, fy Arglwydd, chi sydd wedi codi'n gynnar - o leiaf gan mlynedd yn rhy gynnar!" Gyda hynny, gwelodd Owain yn cerdded i ffwrdd ac yn diflannu i niwl y bore.